



# CONNECTING CLASSROOMS

## through Global Learning

## CANLLAW PARTNERIAETHAU

Diweddarwyd fis Ebrill 2020

### Partneriaethau Ysgolion Rhyngwladol

Does dim ffordd fwy dilys i ddisgyblion ddysgu am faterion byd-eang na thrwy weithio gyda'u cyfoedion mewn gwlad arall. Gall rhaglen Connecting Classrooms through Global Learning helpu ysgolion yng ngwledydd Prydain i ddod o hyd i ysgolion partner mewn mwy na 30 o wledydd ledled Affrica, y Dwyrain Canol a De Asia.

Ar ôl i chi wneud cysylltiad, mae gennym ystod o gefnogaeth i'ch helpu i ddechrau arni a meithrin partneriaeth gynaliadwy rhwng yr ysgolion, gan gynnwys beth yw'r [llwyfannau ar-lein gorau](#) i'w defnyddio ar gyfer cydweithio â'r ysgolion rhyngwladol.

Gallwn ni hefyd eich helpu i gysylltu ag ysgolion eraill yng ngwledydd Prydain drwy grŵp clwstwr Connecting Classrooms through Global Learning. Mae hyn yn golygu bod modd i chi gydweithio i feithrin cysylltiadau gydag ysgolion mewn gwledydd eraill.



## Gweithio gyda'ch partner

Gall ysgolion weithio gyda'i gilydd yn rhithiol i gydweithio ar brosiectau syml ar thema Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy. Gallant hefyd rannu profiadau a dulliau addysgu.

Rydym wedi creu ystod o [syniadau prosiect arloesol](#) y gall ysgolion eu defnyddio'n rhithiol ac sy'n cyd-fynd â nodau'r rhaglen.

Rydym yn cynnig ystod o gyfleoedd ariannu i ysgolion er mwyn cefnogi eu gwaith partneriaeth. Mae cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant, prosiectau, ac athrawon cyflenwi, ynghyd â gweithgareddau eraill. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalen 7 y canllaw hwn. Oherwydd cyfyngiadau teithio, nid oes modd teithio i ymweld ag ysgolion partner ar hyn o bryd. Mae llawer o ysgolion yn dewis cydweithio drwy gyfathrebu ar-lein, heb ymweld â'u partner unwaith, ac yn ffurfio partneriaethau llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, os oes yn dal i fod ddiddordeb gennych mewn teithio i ymweld ag ysgol bartner yn y dyfodol, gallwch nodi hyn ar eich cais am gyllid, ac mae'n bosib y bydd modd dostalu cyllid ar gyfer teithio ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Ar hyn o bryd, dim ond grwpiau clwstwr sy'n gymwys i wneud cais am ein cyllid. Gall grwpiau clwstwr gynnwys cymysgedd o ysgolion cynradd ac uwchradd. Does dim cyfyngiad ar nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan. Fodd bynnag, fel isafswm, dylai fod pedair ysgol yn cymryd rhan, ac mae'n rhaid i un fod o wlad gyfrannog y tu allan i wledydd Prydain.



## Sut i ymuno â phartneriaeth glwstwr

Mae sawl ffordd o ddod yn rhan o bartneriaeth glwstwr. Gallwch:

- ddechrau eich partneriaeth glwstwr eich hun, neu
  - ganfod a oes partneriaeth glwstwr yn bodoli eisoes y gallech chi ymuno â hi.
1. Fel cam cyntaf, yn enwedig os ydych chi'n newydd i ddysgu byd-eang, rydym yn argymhell siarad ag ymgynghorydd lleol. Gallan nhw roi cyngor i chi ar sut i ddechrau a rheoli eich rhith-bartneriaeth eich hun, a chael y mwyaf o effaith a'r cydweithio rydych yn ei wneud fel clwstwr. Mae'n bosib y bydd modd iddyn nhw eich helpu i ddod o hyd i bartneriaeth glwstwr yn eich ardal leol. I gael rhagor o fanylion ar sut i gysylltu ag ymgynghorydd lleol, ewch i'r adran [cymorth a chefnogaeth](#) ar ein gwefan.
  2. Pan fyddwch chi'n barod, gallwch hefyd ddefnyddio ein [teclyn Canfod Partner](#) i chwilio am ysgolion eraill yng ngwledydd Prydain a gwledydd cyfrannog sydd â diddordeb mewn cydweithio. Rydym yn ceisio hwyluso'r dasg o ddod o hyd i ysgolion cyfrannog y tu allan i wledydd Prydain er mwyn cydweithio â nhw cymaint â phosib, felly os byddai'n well gennych chi gallwch gysylltu â ni drwy [schools@britishcouncil.org](mailto:schools@britishcouncil.org) ac fe wnawn ni'n gorau i ddod o hyd i bartner addas i chi.

Nodyn: Dylai ysgolion sydd am wneud cais gyda gwlad yn rhanbarthau'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica cysylltu ag [Schools@britishcouncil.org](mailto:Schools@britishcouncil.org) cyn cyflwyno cais



## Rheoli'r clwstr

Mae'n rhaid i bob clwstr gael ei reoli gan un pwynt cyswllt — Cydlynedd Prydain y Clwstr. Disgwylir y bydd y rôl hon yn cael ei chyflawni gan athro o'r ysgol arweiniol yng ngwledydd Prydain. Fodd bynnag, gellid dirprwyo rhannau addas o'r rôl.

Gall clystyrau gynnwys ysgolion sydd â phob math o brofiad o weithio'n rhyngwladol. Ein diffiniadau ni yw:

<b>Ysgol arweiniol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhaid iddi fod yng ngwledydd Prydain.</li><li>• Hi sy'n arwain ar y broses ymgeisio ac yn rheoli unrhyw gyllid grant a geir.</li><li>• Bydd ganddi brofiad cryf o weithio gydag ysgolion partner rhyngwladol ac o ddysgu byd-eang.</li><li>• Bydd ganddi rôl yn cydlynu'r gweithgareddau o fewn y rhith-bartneriaeth.</li></ul>
<b>Ysgol Bartner</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn ddelfrydol, bydd ganddi rywfaint o brofiad o ddysgu byd-eang a/neu weithio mewn partneriaeth rhyngwladol.</li></ul>
<b>Ysgol Rhwydwaith</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n bosib y bydd hi'n newydd i waith partneriaeth rhyngwladol.</li><li>• Bydd hi'n awyddus i ddysgu gan yr ysgolion arweiniol a phartner ac i ddechrau meithrin addysg dysgu byd-eang.</li></ul>



## Enghraifft

Cyflwynodd Ysgol Gynradd Calstock yng Nghernyw gais grant ar gyfer y bartneriaeth gwbl rithiol gyntaf un erbyn dyddiad cau 27 Ionawr 2020 – grant partneriaethau heb ddim elfen deithio.


Cysylltodd yr ysgol, ochr yn ochr â'u partner ffederasiwn, â'r British Council, ac fe'i cyflwynwyd i ddwy ysgol yn yr Aifft. O ganlyniad i ddiffyg partneriaeth hirdymor flaenorol, roedd meithrin cydberthynas a chadw llawer o ymgysylltiad yn broblem. Nid oedd yr ysgol yn teimlo'n hyderus yn trefnu ymweliad, ond roeddent am ddechrau cydweithio ar brosiect sylweddol ar y cyd ar unwaith.

***"Rhoddodd y rhith-bartneriaeth gyfle i ni ddechrau arni'n gyflym, cynnal diddordeb y partneriaid, ac yna datblygu'r gydberthynas ar gyfer ymweliad yn y dyfodol a gweithgareddau eraill"*** John Pengelly, Cydlynnydd Rhyngwladol

Bydd y bartneriaeth yn archwilio Nod Datblygu Cynaliadwy 14 – Bywyd o Dan y Dŵr, yn benodol y newidiadau i'r amgylchedd morol dros amser o ganlyniad i weithgarwch dynol. Bydd y disgyblion yn rhannu eu canfyddiadau ac yn cydweithio ar gynllun gweithredu drwy e-bost neu Skype, gan ddatblygu sgiliau ymchwil, gwerthfawrogiad o wahanol safbwyntiau diwylliannol a chael profiad o gyflwyno gwybodaeth i'w dosbarthiadau eu hunain wyneb yn wyneb ac i ddosbarthiadau tramor o bell, sydd yn amlwg yn sgiliau cynyddol werthfawr mewn bywyd a gweithle modern.



## Cynnig partneriaeth glwstwr rhaglen CCGL – y daith



# CONNECTING CLASSROOMS

through Global Learning



## Beth sydd ar gael

### £500 I GEFNOGI PROSIECT CYDWEITHREDOL

Gall clystyrau mwy gael cyllid i hyd at ddau brosiect.

### £250 AR GYFER DIGWYDDIAD CYMUNEDOL ARBENNIG

Gall clystyrau mwy gael cyllid ar gyfer hyd at ddau ddigwyddiad.

### Hyd at £200 Y DYDD I ALLU TALU ATHRO CYFLENWI

Mae 3-7 diwrnod ar gael i ysgolion arweiniol.

### £100-£250 I BOB YSGOL YNG NGWLEDYDD PRYDAIN AR GYFER HYFFORDDIANT A DATBLYGU

Gall ysgolion mwy profiadol mewn partneriaethau wneud cais am £100; gall ysgolion llai profiadol, sydd ddim yn barod i sefydlu eu partneriaeth ryngwladol, gael hyd at £250, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer athro cyflenwi.

### DROS 3 DIWRNOD O GEFNOGAETH GAN EICH YMGYNGHORYDD LLEOL



## Y gefnogaeth sydd ar gael

- Crëwyd [adnoddau dosbarth](#) er mwyn hwyluso profiad y partneriaid o ddod i adnabod ei gilydd a dechrau gweithio gyda'i gilydd. Mae'r rhain wedi'u dylunio o gwmpas themâu sy'n gysylltiedig â Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy, ac maent yn cynnwys heriau rhyngweithiol y gall ysgolion eu cwblhau gyda'i gilydd.
- Mae [cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus](#) ar gael am ddim i athrawon ac arweinwyr ysgolion ar weithio mewn partneriaeth, addysg datblygu a dysgu byd-eang, sgiliau trosglwyddadwy ac addysg gynhwysol.
- Adnodd gyda'r teclynnau [Cyfathrebu](#) ar-lein gorau sydd ar gael i ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhestr o'r amrywiaeth o lwyfannau ar-lein y gallwch eu defnyddio i gydweithio gyda'ch ysgolion partner.
- Ymgynghorwyr Lleol – Mae gan yr holl ymgynghorwyr lleol brofiad uniongyrchol o arwain dysgu byd-eang mewn ysgolion, a gallan nhw eich cefnogi chi i asesu eich sefyllfa bresennol a chynllunio sut i symud ymlaen. Os ydych chi'n dymuno siarad ag Ymgynghorydd Lleol, ewch i'r adran [cymorth a chefnogaeth](#) ar ein gwefan.
- [Tîm partneriaethau](#) – mae modd i chi gael cymorth drwy gysylltu â'r British Council yn uniongyrchol er mwyn trafod syniadau neu holi cwestiynau.





## Gair i gall

### Cam 1

Does dim angen i ysgolion partner fod yn eich rhwydweithiau lleol – gallan nhw fod o unrhyw le yng ngwledydd Prydain!

P'un a ydych chi'n dechrau arni, neu'n fwy profiadol ac yn gobeithio datblygu partneriaeth ysgol sefydledig, gallwch gymryd rhan ar lefel sy'n addas i chi a'ch lleoliad.

Ydych chi'n dal i fod yn ansicr pwy i bartneru â nhw? Rydyn ni mewn cysylltiad ag ysgolion ledled gwledydd Prydain. Cysylltwch â ni drwy [schools@britishcouncil.org](mailto:schools@britishcouncil.org) a rhowch wybod i ni pa themâu neu bynciau sydd o ddiddordeb i chi, ac fe wnawn ni eich partneru ag ysgolion addas.

### Cam 2

Oes ysgol bartner dramor gennych chi eisoes? Gwych! Gwiriwch eu bod nhw'n dod o'r [rhestr hon o wledydd cymwys ar gyfer rhaglen CCGL](#)

Ydych chi angen cymorth wrth ddod o hyd i ysgol bartner dramor? Rydyn ni mewn cysylltiad ag ysgolion mewn dros 30 o wledydd ledled y byd. Cysylltwch â ni ac fe wnawn ni eich helpu chi i ddod o hyd i bartner.

Rydym yn cydnabod y bydd gan ysgolion mewn clystyrau wahanol lefelau o brofiad. Peidiwch â phoeni os nad yw rhai ysgolion yn barod i sefydlu eu partneriaethau rhyngwladol eu hunain. Bydd yn dal yn bosib modd iddynt gymryd rhan ym mhob gweithgaredd a chael hyd at £250 yr un ar gyfer datblygiad proffesiynol.

### Cam 3

Da iawn am ddod mor bell â hyn!

# CONNECTING CLASSROOMS

## through Global Learning



### Cam 4

Bydd y clwstwr yn penodi ysgol arweiniol wedi'i lleoli yng ngwledydd Prydain, a fydd yn cydlynu gweithgareddau a hyfforddiant y clwstwr ac yn cyflwyno'r cais am gyllid. Mae hon yn rôl allweddol sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, ond gall yr ysgol arweiniol ddirprwyo i ysgolion eraill yn y clwstwr. Hefyd, bydd yr Ymgynghorydd Lleol wrth law i gefnogi'r ysgol arweiniol a'r clwstwr ehangach ar bob cam. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun!

### Cam 5

Dechreuwch yn fach. Dylai fod gan eich prosiect partneriaeth nodau addysgol dilys, ond gall prosiectau fod yn fach eu maint a chael effaith fawr. Gall prosiectau hirach a mwy mentrus fod yn drawsffurfiol, yn wir, ond mae ganddyn nhw hefyd fwy o botensial i beidio â chael eu cyflawni! Pa bynnag fater byd-eang rydych chi'n penderfynu canolbwyntio arno – p'un a yw'r prosiect yn un mawr neu'n un bach – sicrhewch ei fod yn realistig ac yn gyflawnadwy. Ar gyfer partneriaethau ysgolion newydd, cymerwch gip ar ein her Dod i'ch adnabod, sydd wedi'i dylunio i helpu ysgolion partner i gyflwyno eu hunain a datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng ysgolion a rhanbarthau.

Ydych chi angen ysbrydoliaeth? Lawrlwythwch un o'n hadnoddau am ddim i'r ystafell ddosbarth, ar thema Nodau Byd-eang ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy. Gellir defnyddio'r templedi'n hyblyg ar draws ystod o feysydd pwnc. Defnyddiwch gynlluniau gwersi neu weithgareddau unigol i gyd-fynd â'ch amserlen chi, neu defnyddiwch un o'r templedi i gynnal prosiect dros dymor ysgol.

Gall cyfathrebu rhwng cylchfeydd amser ac amserlenni gwaith prysur fod yn heriol, ond mae yna lawer o opsiynau. Mae clystyrau ledled y byd wedi defnyddio e-bost, Skype, y cyfryngau cymdeithasol, WhatsApp, negeseuon testun a'r post er mwyn cefnogi partneriaethau llwyddiannus. Cymerwch gip ar ein canllaw ar y llwyfannau ar-lein gorau i'w defnyddio ar gyfer cydweithio gydag ysgolion rhyngwladol. Mae cyfathrebu rheolaidd, prydlon a chlir ar hyd cyfnod eich partneriaeth yn hanfodol, yn enwedig pan nad oes modd cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb.

P'un a yw eich partneriaeth yn hirsefydlog neu'n newydd sbon, yn fawr neu'n fach, bydd cytundeb partneriaeth rhwng pob ysgol gyfrannog yn helpu gyda chynllunio gweithgareddau, amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r cyfranogwyr, a diffinio amcanion cyffredinol y bartneriaeth.

# CONNECTING CLASSROOMS

## through Global Learning



### Cam 6

Mae dewislen hyblyg o opsiynau cyllido ar gael i gefnogi eich clwstwr – gweler uchod! Cofiwch, mae'r tîm Partneriaethau neu eich Ymgynghorydd Lleol ar gael i'ch helpu chi gyda'r cais.

### Gwneud cais

Ar ôl nodi'n glir beth yw amcanion a chynlluniau'r clwstwr, dylai cydlynnydd y clwstwr gyflwyno cais am gyllid grant sy'n cwmpasu'r holl waith sydd wedi'i gynllunio'n rhan o raglen Connecting Classrooms.

Er mai Cydlynnydd Prydain y Clwstwr fydd yn arwain arnynt, rhaid i'r ysgolion cyfrannog o wledydd Prydain a thramor gwblhau'r ceisiadau ar y cyd. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth gref o gydweithio.

Nid oes cyllid ar gyfer teithio'n rhyngwladol i gynnal ymweliadau ysgol dwy ffordd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os yw cynlluniau eich partneriaeth ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ymweliadau dwy ffordd wedi'u hariannu gan grant Connecting Classrooms, cwblhewch adrannau perthnasol y ffurflen gais. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bosib y bydd modd dostalu cyllid ar gyfer teithio'n rhyngwladol yn nes ymlaen, heb fod angen i chi gyflwyno cais arall.

Ewch i'r adran [Ceisio am gyllid](#) ar y wefan lle gwelwch chi'r holl wybodaeth yn ymwneud â'r broses ymgeisio, gan gynnwys:

1. Ar gyfer beth mae'r cyllid
2. Sut i roi cais at ei gilydd
3. [Dyddiadau cau](#) a dolen gyflwyno



## Taith Bartneriaethau

### FFURFIO CLWSTWR

Bydd y British Council a chanolfannau Arweiniol Arbenigol Cenedlaethol yn helpu ysgolion i ddod o hyd i gystyrau ac yn cynghori ar yr hyn sydd gan gynllun Connecting Classrooms i'w gynnig.

### HUNANASESU

Bydd yr ysgolion yn y clystyrau yn hunanasesu eu lefel o ddealltwriaeth o Addysg Datblygu a Dysgu Byd-eang, i benderfynu beth yw anghenion Datblygu Proffesiynol Parhaus yr ysgolion.

### CYNLLUNIO

Bydd yr ysgolion yn cydweithio i gynllunio eu gweithgareddau a'r cyllid a'r cyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus maent yn bwriadu ceisio amdano

### CAIS AM GRANT

Bydd yr athrawon yn cydweithio i lenwi'r ffurflen gais, a'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau.

### PROSES RHEOLI CEISIADAU'R BRITISH COUNCIL ASESU

Asesiad Ansawdd a gyflawnir gan aseswyr allanol o fewn mis i ddyddiad cau'r ceisiadau.

### DEWIS

Bydd panel y British Council, gan gynnwys cynrychiolwyr o wledydd Prydain a thramor, yn penderfynu pa bartneriaethau ddylai dderbyn cyllid, yn seiliedig ar asesiadau ansawdd allanol a meini prawf blaenoriaeth.

### PENDERFYNU AR GYLLIDO

Rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus am y canlyniad drwy e-bost gan dîm Connecting Classrooms y British Council o fewn chwech wythnos i gyflwyno'r



cais gwreiddiol.

**CONTRACT**

Anfonir y contract 12-21 mis i gydlynwyr y clystyrau yn yr e-bost sy'n rhoi gwybod am y canlyniad. Gofynnir i gydlynwyr argraffu dau gopi, llofnodi'r ddau, a'u dychwelyd i'r British Council.

**TALU**

Bydd y British Council yn talu 80% o'r grant i ysgol arweiniol Prydain, ar ôl derbyn contractau wedi'u llofnodi a manylion cyfrif banc.

**GWEITHGAREDDAU CYDWEITHIO RHYNGWLADOL**

Bydd yr ysgolion yn cydweithio ar y gweithgareddau a ddisgrifir yn eu cais am grant, gan gynnwys:

**PROSIECTAU DISGYBLION AR Y CYD, DATBLYGIAD PROFFESIYNOL,  
YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED, CYSTADLAETHAU.**

Bydd angen i glystyrau gyflwyno **ADRODDIAD INTERIM** tua hanner ffordd drwy gyfnod y contract.

**ADRODDIAD TERFYNOL**

Bydd y partneriaethau'n adrodd ar effaith y prosiect a gwariant yr ymweliadau. Bydd y partneriaethau yn cael taliad terfynol o 20% o'r grant a ddyfarnwyd os yw'r adroddiad yn dangos bod y grant wedi'i wario'n gywir.

**DYFARNIAD YSGOLION RHYNGWLADOL / DYFARNIADAU**

Bydd dyfarniadau i ysgolion yn seiliedig ar y dystiolaeth o weithgareddau ar y cyd a ddangosir yn yr adroddiad terfynol